ADRODDIAD

# Pwyllgor Adeiladu Capel Newydd,

SALEM, VENEDOCIA,

SWYDD VAN WERT,

OHIO.

AGORWYD HYDREF 15-16, 1898.



# ADRODDIAD

# Pwyllgor Adeiladu Capel Newydd,

## SALEM, VENEDOCIA,
## SWYDD VAN WERT,

## OHIO.

---

### AGORWYD HYDREF 15-16, 1898.

---

ARGRAFFWYD YN
SWYDDFA Y REPUBLICAN,
VAN WERT, OHIO.

# ANERCHIAD.

---

ANWYL GYFEILLION:—Wrth gyflwyno i'ch sylw yr adroddiad hwn o hanes yr adeiladu, teimlwn ein hunain yn barod i dori allan mewn gorfoledd, mae ein llestr yn llawn. Gan i ni gychwyn y mudiad heb ymgynghorid ffurfiol, teimlem gyfrifoldeb neillduol arnom, a chyfaddefwn iddo fod yn faich trwm o bryder i ni; goddefer i ni roi teyrnged gyhoeddus o ddiolchgarwch i'r Pen Mawr am ein cynal, i ddwyn hyn o waith i fuddugoliaeth. Diolch iddo am arbediad bywyd, a phob nerth a gawsom, ac am iddo roddi i chwithau oll galon i weithio.

Yr oedd 1898 yn Jubili y Sefydliad; ac felly dathlwyd ef mewn modd teilwng, sef trwy godi capel hardd i genedlaethau sydd yn dod, os na ddigwydda damwain. Ni raid petruso dweyd ei fod y capel harddaf a fedd y Cymry yn America; a thystiai ymwelydd enwog o Gymru nad oedd ei harddach yno ychwaith.

Adeiladwyd ef ar adeg rad iawn, pan yr oedd pob defnyddiau yn y man isaf eu pris. Tystiai ei adeiladydd yn ddiweddar y buasai yn costio i ni yn awr o ddeg i bymtheg mil yn ychwaneg.

Bwriadem i'r Adroddiad ddod allan yn llawer cynt; ond buwyd yn disgwyl wrth ychydig oeddynt heb gyflawni eu haddewidion; a phan ddechreuwyd ar y gwaith o 'i grynhoi gwelwyd ei fod yn fwy o orchwyl o lawer nag y tybiwyd.

Gwnaeth y Trysorydd, a'r Ysgrifenydd, waith mawr yn ddistaw a dirwgnach; a gweithiodd yr holl Bwyllgor yn ardderchog, ni welsom erioed bwyllgor mwy ffyddlon, a thangnefeddus.

Diolchwn i bawb am eu haelioni, a'u ffyddlondeb. Gan ddymuno i bawb wyneb Duw y gorphwyswn.


Eich brawd a'ch cydymaith yn nheyrnas ac amynedd Iesu Grist,

EDWARD ROBERTS.

*Venedocia, Ohio, Mai 8, 1902.*

# CYNWYSIAD.


| | |
|---|---|
| ANERCHIAD | 3 |
| CRYNODEB O HANES YR EGLWYS | 5–12 |
| Y GWAITH A RODDWYD GAN Y GYNULLEIDFA | 13–14 |
| CYFRANIADAU SALEM | 15–25 |
| SEION | 26–29 |
| HOREB | 29–30 |
| BETHEL | 31 |
| YR EGLWYS BRESBYTERAIDD | 32 |
| VAN WERT | 33–34 |
| DELPHOS | 34 |
| COLUMBUS | 35 |
| CINCINNATI | 35–36 |
| CYLCH JACKSON | 36–39 |
| DIEITHRIAID ERAILL | 39–41 |
| DIEITHRIAID AT Y GLOCH | 41 |
| CRYNODEB O'R DERBYNIADAU | 42 |
| CRYNODEB O'R TALIADAU | 43–44 |
| Y DARLUNIAU | 44 |



Y PARCH EDWARD ROBERTS, BUGAIL.

gyda chrefydd. Nid oedd yn huawdl, ond yn fwy diwylledig ei feddwl na'r cyffredin yn ei oes.

Bu yn proffesu crefydd am 51 o flynyddau, ac yn flaenor am 44, er nad oedd ond 69 pan fu farw.

Gweithiodd yn egniol iawn gyda chrefydd yn Nghymru, a daeth i America, a rhoddodd gychwyniad i sefydliad crefyddol Cymreig a ddeil i'w gydmaru heddyw ag unryw sefydliad Cymreig yn y wlad. Bu ty Mr. a Mrs. Bebb yn gartref i'r achos am tua phum' mlynedd; a bu hi mor ffyddlon ag yntau i wasanaethu yn ei chylch ei hun, yn croesawu y saint fel yna i'w thy am gyfnod, a gweinidogion y Gair am flynyddoedd lawer wedi hyny. Merch Y Faner, ger Dolgelley, ydoedd hi.

Yn mhen y flwyddyn, sef Ebrill, 1849, daeth y Parch. Howell Powell i ymweled a hwy, (y pregethwr cyntaf ymwelodd a hwy oedd y Parch. Michael D. Jones, Bala, yn Mehefin 1848, ac aethpwyd trwy ffurf o gorffori eglwys Fethodistaidd; ac anfonwyd cais gyda Mr. Powell am iddynt gael eu derbyn i undeb a Chymanfa y T. C. yn Ohio, yr hon a gynhelid ar y pryd yn Newark, O. Yr oedd Mr. Thomas Morris, fel Mr. Bebb, yn flaenor rheolaidd yn Nghymru gyda y T. C. Dyn distaw, hynaws, ond byddai yr hyn a ddywedai yn gall, ac i'r pwrpas. Un o Dolegweiddiol, plwyf Trefeglwys, Sir Drefaldwyn ydoedd. Efe oedd blaenor y gan yma, ond bu farw Medi 24, 1853.

Rhif yr eglwys pan gorfforwyd hi gan Mr. Powell oedd 15eg, sef Mr. a Mrs. Bebb, a tri o'r plant, Mr. a Mrs. Thomas Morris, Mr. a Mrs. Jervis, Mr. a Mrs. David Owens, Mr. a Mrs. Edward J. Jones, Mr. David M. Jones a Mrs. Richard Jones, yr oll o Sir Drefaldwyn. Nid oes ond tri o honynt yn aros, sef Mr. Jervis, a Mr. Owens, yr hwn sydd wedi gadael ei 90 ml. oed, a merch hynaf Mr. Bebb, sef Mrs. David M. Jones. Erbyn heddyw mae yr eglwys fechan wedi cynyddu i fod yn un o'r eglwysi cryfaf fedd y Cyfundeb yn y wlad. Er iddi genhedlu merched y rhai sydd yn eglwysi llewyrchus o'i hamgylch, rhifa yn gyffredin tua 300, ac nid oes arwyddion henaint arni o gwbl. Yn 1863 aeth Seion allan o honi, yn 21 o gyflawn aelodau, yr hon yn awr sydd yn rhifo dros 100; ac y mae hon wedi bod dan yr un gofal bugeiliol a Salem o'r dechreu hyd yn awr. Yn 1881 aeth Horeb allan yn 38 o gyflawn aelodau; ac y mae hithau wedi cynyddu yn eglwys lewyrchus. Yn 1890 aeth Bethel allan, yn 20 o gyflawn aelodau. Mae y ddwy uchod wedi bod yn un ofalaeth



fugeiliol, tan ofal y Parchn. D. Jewett Davies, M. A., Isaac Edwards, a D. M. Jones, yr hwn yw eu gweinidog presenol.

Y gweinidog sefydlog cyntaf a fu ar Salem oedd y Parch Hugh Pugh. Brodor o Dowyn oedd ef; ganwyd ef ar dyddyn yn y plwyf hwnw o'r enw Bryn Glas Isaf, Awst 22, 1812. Daeth i America yn 1850. Yn Youngstown y sefydlodd gyntaf, ac y dechreuodd arfer ei ddawn fel pregethwr; ond nid oedd yno eglwys Fethodistaidd yn y lle y pryd hwnw. Derbyniwyd ef yn bregethwr gan Gymanfa Ohio yn Palmyra, Ohio, yn 1852. Bu yn porthi y praidd yn y lle hwn am ddwy flynedd. Yn 1854 ordeiniwyd ef, a symudodd i Swydd Van Wert yma; a bu yn pregethu ac yn bugeilio yr ychydig braidd oedd yma yn ffyddlon iawn am flynyddoedd. Yn 1868 symudodd i Sugar Creek, Putnam county, Ohio, lle y llafuriodd yn ffyddlon hyd ei ddiwedd. Aeth at ei wobr Awst 12, 1878. Yr oedd yn ddyn pur, yn bregethwr sylweddol ac efengylaidd, a'i dduwioldeb uwchlaw amheuaeth.

Ei olynydd fel gweinidog Salem oedd y Parch John P. Morgan. Ganwyd ef yn Sir Aberteifi, D. C., Rhag 3, 1830. Ymfudodd gyda ei rieni i Swydd Jackson, Ohio, 1840. Dechreuodd bregethu yn Horeb, Jackson, yn 1860. Yn 1865 symudodd i Van Wert i gymeryd gofal eglwysi Salem a Seion; a gwasanaethodd yn ffyddlon hyd 1883, pryd y gorfu iddo ymryddhau oherwydd gwaeledd iechyd. Collodd ei olwg am flynyddoedd, ond adferwyd ef iddo i raddau y flwyddyn ddiweddaf y bu fyw. Aeth yntau i dangnefedd Tach. 19, 1899. Perthynai i'r dosbarth blaenaf o bregethwyr; meddai alluoedd uwchraddol, a meddwl tra diwylledig.

Dilynwyd hwy gan y rhai canlynol:—

Y Parch Hugh Davies, yn awr yn Scranton, Pa.

Y Parch R. Vaughan Griffith, yn awr yn Lime Springs, Ia.

Y Parch Thomas Roberts, yn awr yn Caer, Lloegr.

Y gweinidog presenol yw yr ysgrifenydd.

Y diaconiaid a fu yn yr eglwys, heblaw y ddau a enwyd, sef Mri. Bebb a Morris:—

Mr. Jeremiah Parry—Yn ddiacon yn Nghymru. Daeth yma yn 1853. Symudodd i Middle Point, yn 1868. Bu farw Mawrth 1896, yn agos i 86 ml. oed.

Evan Thomas—Daeth yntau yma yn ddiacon yn 1853. Bu farw Ebrill 27, 1857, yn 49 ml. oed.

Mr. William G. Bebb—Mab ydoedd i'r cyntaf. Dewiswyd yn 1858. Symudodd i Wisconsin yn 1864. Bu farw Awst 21, 1894, yn Minneapolis, Minn.

Mr. David M. Jones—Bu farw ar ol agoriad ein capel newydd. Brodor o Llanbrynmair. Bu yn ddiacon yn Salem o 1858, hyd Mawrth 5, 1901, pryd y bu farw, yn 78 ml., 1 mis, a 22 diwrnod. Gwnaeth achos Iesu Grist yn achos iddo ei hun; ac nid ydym yn gwybod i ni adwaen neb ffyddlonach. Llanwodd ei ddydd a gwaith, a cholled fawr i ni oedd ei golli.

Mr. Abraham Jones—Wedi gwasanaethu am bum' mlynedd; ymunodd a Seion ar ei ffurfiad.

Mr. Rowland J. Whittington—Daeth yma yn ddiacon o Cincinnati, yn 1865. Bu farw Gor. 10, 1883, yn 68 ml. oed.

Mr. Morgan H. Morgan—Dewiswyd yn 1869. Wedi gwasanaethu am 13 o flynyddoedd, ymunodd ag eglwys Horeb ar ei ffurfiad.


Mr. Thomas J. Morris—Mab ydoedd i'r cyntaf o'r enw. Bu farw wedi i ni ddechreu adeiladu ein capel newydd, ac felly ni chafodd ei weled wedi ei orphen, er cymaint oedd ei ddyddordeb ynddo. Gwr tawel, pur, a sylweddol iawn fel ei dad ydoedd. Bu farw Mai 12, 1898, yn 44 ml. oed, 6 mis, a dau ddiwrnod.

Diaconiaid presenol yr eglwys ydynt Mri. David W. Evans, Thomas A. Alban, John T. Thomas, Richard Jervis, a James Price Morgan.

Yn 1853 adeiladwyd y capel cyntaf, ar dir Mr. Bebb, am y rheol a thy presenol y gweinidog, agos lle mae yr hen ysgoldy. Nid oedd ond deg-troedfedd-ar-hugain wrth ugain. Safai a'i ochr at y ffordd; drws yn ei ochr, a ffenestr o bob tu i'r drws. Yr oedd yn ormod o lawer i'r gynulleidfa y pryd hwnw; a thybiai rhai na lenwid ef byth.

Adeiladwyd ef gan Mr. Edward J. Jones, y saer, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. D. M. Jones. Costiodd $300; ac yr oedd hyn yn faich mawr y pryd hwnw i'r ychydig yn nghanol y coed. Y Parchn Evan S. Jones, a Robert Williams, o Jackson, fu yn gwasanaethu ar ei agoriad.

Adeiladwyd yr 2il gapel yn 1866, ar lot newydd am y rheol a'r cyntaf. Capel cryf a helaeth, gyda ag oriel (gallery) ar ei dalcen. Mesurai 60 troedfedd wrth 40; a chostiodd $3500.00. Ei adeiladydd oedd Mr. William E. Jones. Digwyddodd damwain adeg ei adeiladu; cwympodd wyth o ddynion o'i ben, ac yr oedd saith o honynt yn



Y CAPEL CYNTAF. ADEILADWYD YN 1853. COSTIODD $300.



AIL GAPEL. ADEILADWYD YN 1866. COSTIODD $3,500.

Gymry, sef y Parch J. P. Morgan, Mri. Wm. E. Jones, D. W. Evans, Hugh E. Evans, Jonathan Jones, David M. Jones, a John Breese. Anafwyd y ddau ddiweddaf yn ddifrifol; torodd Mr. Jones ei asenau, a Mr. Breese ei forddwyd, a bu yn gloff hyd ei fedd.

Y Parchn Thomas Levi, a Howell Powell oeddynt yn gwasanaethu ar ei agoriad.

Pan ddaethom yma yn 1895, teimlem fod angen capel newydd ar Salem. Er fod yr hen gapel yn adeilad eang, a mwy golygus na llawer a welom, eto teimlem nad oedd yn deilwng o'r eglwys, a bod llais atom am i ni gydio yn y gwaith. Petrusem yn fawr yn nghylch y ffordd i gychwyn y mudiad. Ofnem y credai rhai o'r arweinwyr nas gellid mentro anturiaeth mor fawr ar hyny o bryd, eto teimlem fod yn yr ardal allu ac ewyllys i wneyd y gwaith. Y dyrys bwnc i ni ydoedd, pa fodd i ddwyn hyny i'r golwg cyn i'r gwan ei ffydd gael traethu ei ofnau, a dangos yr anhawsderau? Pan yn nghanol y dryswch, daeth Rhagluniaeth i'n cynorthwy, a hyny mewn modd amlwg fel y mae yn ymddangos i ni heddyw. Rhyw ddiwrnod pan oeddym yn siarad o flaen ein ty ag Americanwr o'r enw Mr. Lee B. Durstine, Columbus, sylwai y dylem godi capel newydd. Wedi i ni ateb yn chwareus fod yn hawddoch siarad na gwneyd, aeth i'w logell, ac estynodd bill $5.00 i ni, i gychwyn cronfan capel newydd. Bu hwnw yn ein llogell am rai wythnosau heb i ni ddweyd dim am dano wrth neb. Pan yn ein hystafell un noson yn myfyrio ar pa fodd i wneyd, daeth cynllun yn sydyn i'n meddwl, a phenderfynasom ei roi mewn gweithrediad ar unwaith. Ar ol y bregeth y boreu Sabboth canlynol, dywedasom wrth y gynulleidfa fod genym ryw beth neillduol i'w ddweyd wrthynt y nos, a rhywbeth i'w ddangos iddynt, a'i fod yn bosibl nad oeddynt erioed wedi ei weled o'r blaen, ac na welent ef mwy. Ni raid dweyd fod y capel yn llawn y noson hono. Gwnaed sylwadau ar ofalu am, a harddu ty yr Arglwydd, seiliedig ar Haggai 1:4-8. Ar ddiwedd y sylwadau dangoswyd y pum'doler bapyr iddynt, ac meddem, yr ydych wedi gweled llawer o rai tebyg iddo, ond mae'n bosibl na welsoch hwn erioed o'r blaen, ac na welwch ef mwy. Dywedwyd ei hanes wrthynt, a'n bod yn credu i'r Arglwydd anfon Americanwr o dref Columbus, gyda phum' doler i gychwyn cronfa capel newydd. Yna gofynem pa beth a wnaem ag ef ai ei anfon yn ol, ynte ychwanegu ato? "Haner-can-doler," gwaeddai hen dad ffyddlon o'r gynulleidfa. Teimlem braidd yn siomedig am i ni gael ffigwr mor isel i gychwyn, am

yr ofnem mai o hyny i lawr y byddai y rhai a ddilynai; ond er ein llawenydd i fyny yr aethant. "$100.00," meddai yr ail; "$200 00" meddai 3ydd &c nes i ddau frawd ddod a $500 00 bob un. Cafwyd dros $5,000.00 o addewidion y noson hono. Dywedid y rhoddid cyfleustra cyffelyb drachefn mhen dwy wythnos, ac y disgwylid y byddai y gwyr mwyaf *timid* wedi ymgynghori a'u gwragedd erbyn hyny, ac y ceid y rhan fwyaf i roddi addewidion. Pan y gofynodd brawd ar y ffordd o'r capel y noson hono i hen dad ag oedd wedi dweyd wrtho ychydig cyn hyny nad oedd gwiw son am gapel newydd ar hyny o bryd, a oedd yn meddwl y ceid capel newydd? Wel, "meddai, a dagrau llawenydd yn rhedeg dros ei ruddiau, y mae wedi ei adeiladu." Pan roddwyd y cyfleustra mhen dwy wythnos aeth yr addewidion dros $10,000.00. Ni chafodd y gynulleidfa gyfleustra ffurfiol ar ol hyn i wneyd addewidion hyd ddydd yr agoriad; ond daeth bron yr oll nad oeddynt wedi rhoddi eu haddewidion yn gyhoeddus a'u haddewidion i ni i'r ty. Mae un ffaith yn haeddu yn neillduol ei chofnodi, sef na ofynasom i neb o gynulleidfa Salem, yn bersonol, faint a roddwch at y capel newydd? Dymunwn i hyn fod yn glod oesol i'r gynulleidfa yn Salem, oherwydd dengys fod yr haelioni yn hollol wirfoddol.

Penderfynwyd codi Pwyllgor Adeiladu, a bod hwnw i gynwys yr Ymddiriedolwyr. Gwnaed pwyllgor o bymtheg; ond trwy newidiad ar ol hyn yn nifer yr Ymddiriedolwyr daeth dau eraill i mewn yn ddiweddarach i'r pwyllgor.

Y Gweinidog—Llywydd; Mr. Thomas A. Alban, Is-lywydd; Mr. John C. George, Ysgrifenydd; Mr. Morris B. Jones, Trysorydd; Mri Wm. E. Jones, Edward R. Hughes, John S. Breese, Wm. J. Bebb, John W. Jones, David T. Jones, Dr. David Davies, John H. Rees, Richard M. Evans, David B. Jones, James Price Morgan, William C. Morgan, Richard O. Evans.

Cyfarfyddodd y Pwyllgor Awst 23, 1897, a phenderfynwyd cael Architect; a Medi 23, cytunwyd i gymeryd Wing & Mahurin, Ft. Wayne, Ind. Wedi rhoddi amlinelliad iddo o'r hyn ddymunem gael, cafwyd plan ganddo, yr hwn a fabwysiadwyd, wedi nifer a welliantau arno, Tachwedd 18, 1897.

Derbyniwyd *bids* oddi wrth chwech ar y gwaith o godi yr adeilad, sef Building Exchange, Cincinnati, S. A. Dunbar; Alexander Dawson, Toledo; H. F. Rump, Van Wert; W. H. Creep, Bluffton, Ind., a J. S. Zook, Van Wert. Derbyniwyd eiddo y diweddaf, sef



$11,149.57, yr oedd $1,219.00 o dan yr agosaf ato, a thros bum' mil o dan yr uchaf.

Gwerthwyd yr hen gapel i'n Cor Meibion (Cambrian Male Chorus) am $100; symudwyd y capel ganddynt ar dir wedi ei brydlesu gan Mr. D. W. Evans. Mae yn dra gwasanaethgar i'r Cor, ac i'r lle hefyd fel Hall.

Penderfynwyd os gellid lledu y lot, adeiladu y capel newydd yn yr un man a'r ail gapel; a llwyddwyd i wneyd hyn trwy brynu saith droedfedd ar hugain yn yr ochr Ogleddol, gan Mr. D. W. Evans. Mae gan yr eglwys ddwy lot helaeth ar yr ochr ddeheuol i'r rheol lle yr oedd yr hen gapel cyntaf; ond mwy na hyny ar yr ochr Orllewinol lle y mae y capel presonol, a thy y gweinidog, yr hwn yr adeiladwyd 20 ml. yn ol.

Nid oedd y llechi, y gwydr, frescoing, furnaces, y gloch, a'r dodrefn, i mewn yn y cytundeb a Zook; y ni oedd i bwrcasu y pethau hyn yn nghyd a thori y seler, a chludo pobpeth o fewn pum' milltir o gylch. Yr oeddym i dalu am y defnyddiau hefyd fel y deuent, o fewn 25 per cent, ac am y gwaith yn fisol o fewn 10 per cent; a'r rhai a nodwyd i ofalu am yr amcan gyfrifiad oeddynt Mri. David T. Jones, John W. Jones a Wm. E. Jones. Y taliad cyntaf a wnaed oedd ar y defnyddiau, sef $2000.00 Chwef 23, 1898. Llwyddwyd i dalu y gofynion misol heb godi arian, yr hyn sydd yn glod mawr i'r gynulleidfa.

Tachwedd 8, 1897, dechreuwyd tori y seler; a thorwyd *drain* o gornel Ogledd-Orllewin y seler i'r Creek trwy berllan D. W. Evans, i'r Gogledd i'r ty.

Gorphenwyd y gwaith gan Mr. Zook yn ei amser; a gwnaeth waith rhagorol; profodd ei hun yn foneddwr cristionogol.

Agorwyd y capel Hydref 15, 16, 1898. Pregethwyd y noson gyntaf gan y Gweinidog presenol, a'r Hen-weinidog, y Parch J. P. Morgan. Pregethwyd hefyd gan y Parchn. Daniel Evans Jones, Venedocia; H. W. Griffith, Cincinnati; Wm. W. Rees, (Pres.); R. H. Evans, Cambria, Wis.; David Davies, D. D., Oshkosh, Wis., a William James, D. D., Manchester, Lloegr.

Casglwyd ddydd yr agoriad mewn arian, ac addewidion, dros $4000.00. Deuai yr addewidion i mewn yn gyflym a diball pan roddasom gyfle i'r gynulleidfa ar ddiwedd y gwasanaeth y noson ddiweddaf; ac wedi i ni fod wrthi am tuag ugain mynud, dechreuodd y

goleuni celfyddydol ballu, a gwaeddodd y Parch D. Davies arnom, "Frawd, mae y nefoedd yn dweyd eich bod wedi cael digon."

Cyfranodd eglwysi y cylch yn anrhydeddus, sef Seion, Horeb, Bethel, a'r Eglwys Bresbyteraidd; a chafwyd cymorth sylweddol o Van Wert, Delphos, Columbus, Cincinnati, a gweithiodd y brodyr Mri. Lot Davies, a James D. Jenkins, yn rhagorol ddydd yr agoriad, i wneyd casgl yn mhlith brodyr o gylch Jackson.

Teimlwn yn gynes iawn at ein caredigion, a chyflwynwn iddynt ddiolchgarwch calon.

Rhoddwyd ffenestri gan bersonau, a chymdeithasau fel y canlyn:—Mae y ffenestr fawr sydd yn ngwyneb y capel i'r tri theulu Cymreig cyntaf. Mae y ffenestr yn dair; y ganol i Mr. a Mrs. William Bebb, gan Mrs. D. M. Jones; yr Ogleddol i Mr. a Mrs. Thomas Morris, gan ei mab, Mr. Thomas J. Morris; ar Ddeheuol i Mrs. Mary Jervis, gan ei phriod.

Mr. a Mrs. Thomas A. Alban, gan eu plant.

Mr. John a Mary Breese, gan eu plant.

Mr. David M. a Laura Bebb Jones, gan eu plant.

Mr. a Mrs. John M. Jones, gan ei merch, Mrs. Sarah Owens George.

Miss Ella O. Evans, i'w rhieni.

Mr. Richard W. Jones, i'w rieni.

Mr. Rowland J. Whittington, gan ei briod.

Mr. David a Mrs. Sarah Owens, gan Mr. a Mrs. Edward T. Jones.

Mr. Jeremiah Parry, gan ei blant.

Mr. a Mrs. Jane Hughes, gan eu plant.

Rhodd gan Mr. a Mrs. Rowland Evans.

Y Gymdeithas Ymdrechol.

The Presbyterian church.

Eglwys Seion.

Eglwys College St., Cincinnati.

K. P. Lodge, No. 177, Venedocia, O.

Ceisiwyd cadw cyfrif o'r gwaith a roddwyd yn rhad gan y gynulleidfa; ond nid ydym yn proffesu fod hwn yn gywir; ond gwnaethom ein goreu, yn nghanol trafferthion eraill, i gadw cyfrif; ac y mae fel y canlyn:—



| | Llwythi o Middle Point. | Dyddiau gyda Gweddoedd. | Dyddiau i'r Dynion |
|---|---|---|---|
| **Alban, Mr. a Mrs. Thomas A.** | | | |
| **Alban, David** | | | |
| **Ashton, Edward** | | | |
| **Breese, John S.** | | | |
| **Breese, Richard S** | | | |
| **Bebb, William J** | | | |
| **Bebb, William John** | | | |
| **Breese, Richard (Bethel)** | | | |
| **Davies, Evan G** | | | |
| **Davies, Daniel** | | | |
| **Evans, Richard M.** | | | |
| **Evans, Mrs. Sarah A** | | | |
| **Evans, John L.** | | | |
| **Evans, Hugh E.** | | | |
| **Evans, Evan E.** | | | |
| **Evans, William W** | | | |
| **Evans, Thomas** | | | |
| **Evans, David W** | | | |
| **Evans, William B** | | | |
| **Evans, Richard O** | | | |
| **Evans, Daniel O** | | | |
| **Edwards, David H** | | | |
| **Edwards, John P** | | | |
| **Humphrey, Ellis** | | | |
| **Hughes, Edward R** | | | |
| **Hughes, John R** | | | |
| **Hughes, John R. (Bethel)** | | | |
| **Hughes, David T** | | | |
| **George, John C** | | | |
| **Griffith, John** | | | |
| **Foster, Evan** | | | |
| **Foster, John C.** | | | |
| **Jones, David M** | | | |
| **Jones, Edward E** | | | |
| **Jones, Richard W** | | | |
| **Jones, Edward W** | | | |
| **Jones, David E** | | | |
| **Jones, David B.** | | | |
| **Jones, Lewis W** | | | |
| **Jones, John G.** | | | |
| **Jones, Robert S** | | | |
| **Jones, David T.** | | | |
| **Jones, William H** | | | |

| | Llwythi o Middle Point. | Dyddiau gyda Gweddoedd. | Dyddiau i'r Dynion |
|---|---|---|---|
| Jones, Thomas Charles | | | |
| Jones, John E | | | |
| Jones, John Elias | | | |
| Jones, Moses P | | | |
| Jones, John W | | | |
| Jones, Thomas W | | | |
| Jones & Jones | | | |
| Jones, Henry R | | | |
| Jones, William E | | | |
| Jones, David E | | | |
| Jones, Stevan | | | |
| Jervis, Richard | | | |
| Meredith, William | | | |
| Morris, David C | | | |
| Morris, Eben | | | |
| Morris, Evan (Bethel) | | | |
| Morgan, James Price | | | |
| Morgan, William C | | | |
| Morgan, Evan | | | |
| Lloyd, John B | | | |
| Lloyd, Evan E | | | |
| Pugh, Hugh E | | | |
| Price, John G | | | |
| Parry, Edward T | | | |
| Owens Richard E | | | |
| Owens, Thomas G | | | |
| Owens, Owen B | | | |
| Owens, David J | | | |
| Rees, John H | | | |
| Rees, David W | | | |
| Rees, William | | | |
| Roberts, Hugh | | | |
| Richards, Hugh O | | | |
| Thomas, Joseph E | | | |
| Thomas, Robert R | | | |
| Thomas, James | | | |
| Williams, William R | | | |
| Williams, William T | | | |
| Williams, William (Bethel) | | | |

# CYFRANIADAU AT GAPEL NEWYDD SALEM, VENEDOCIA, OHIO.

## SALEM.

*(SYLWER—Cynwysa y golofn gyntaf y taliadau mewn arian a wnaed at y capel, y ffenestri, y gloch a'r casgl a wnaed trwy y chwiorydd ieuainc ddiwedd y flwyddyn 1901.)*

| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Alban, Mr. a Mrs. Thomas A | $ | | |
| Alban, Mr. a Mrs. David | | | |
| Ethel | | | |
| Thomas Acron | | | |
| George Edward | | | |
| Ashton, Mr. a Mrs. Edward | | | |
| Breese, Mrs. Mary | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. John S | | | |
| Margaret Jane | | | |
| Mary | | | |
| Samuel | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. Richard S | | | |
| Alfred | | | |
| Ambrose | | | |
| Breese, Mrs. Hannah | | | |
| Bebb, John | | | |

| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Bebb, Mr. a Mrs William J | | | |
| William John | | | |
| Goodwin | | | |
| David | | | |
| Orlando | | | |
| Raymond Rees | | | |
| Baxter, Mrs Elizabeth | | | |
| Earl | | | |
| Russel | | | |
| Davies, Mr a Mrs. Evan G | | | |
| Elizabeth M. | | | |
| Elmer | | | |
| Davies, Dr. a Mrs. David | | | |
| Morgan | | | |
| Davies, Mr a Mrs. Thomas L | | | |
| Evan | | | |
| Davies, Mr. a Mrs. David J | | | |
| Thomas Russel | | | |
| Davies, Evan J | | | |
| Edward | | | |
| William T | | | |
| Maggie | | | |
| Davies, Mrs. John H | | | |
| John Glyndon | | | |
| Davies, Mr. David P | | | |
| Davies, Jenkin W | | | |
| Davies, Mr. John R (Prairie) | | | |
| Edwards, David H | | | |
| Margaret Lena | | | |
| Rachel Cranogwen | | | |
| Mary Dorothy | | | |
| Thomas | | | |
| Edwards, Mr. a Mrs John P | | | |
| Richard Rufus | | | |



| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Evans, David W | | | |
| Laura Ann | | | |
| David B | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Wm. B | | | |
| David Harris | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Roland | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Hugh E | | | |
| Alban J | | | |
| Dr. Thomas A | | | |
| D Luther | | | |
| Elsworth | | | |
| Eunice | | | |
| Myrtle A | | | |
| M. Zelma | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Evan E | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Richard M | | | |
| Morris | | | |
| Evans, Mr a Mrs. Thomas | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Edwin J | | | |
| Walter Davies | | | |
| Evans, Mr a Mrs. William W | | | |
| Thomas Walter | | | |
| Ann Jane | | | |
| Maud | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Richard O | | | |
| Mable | | | |
| Russel | | | |
| Daniel Hayden | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Daniel O | | | |
| Helen | | | |
| Irene | | | |
| Dorothy A | | | |
| Cora Lee | | | |
| Elmyra | | | |
| Daniel O | | | |

| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Evans, Ella O. | | | |
| Evans, John Russel | | | |
| Evans, Willie | | | |
| Evans, Robbie | | | |
| Evans, Margaret | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. David J. | | | |
| Thos. Clarence | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. John L. | | | |
| Llywelyn L. | | | |
| Evans, Evan J. | | | |
| Evans, John R. | | | |
| Evans, Rees. | | | |
| Foster, Mr. a Mrs. Evan | | | |
| John C. | | | |
| Harriet E. | | | |
| George, Mr. a Mrs. John C. | | | |
| John Gilbert. | | | |
| Maurice Nelson | | | |
| Goodwin, Mrs. Mary | | | |
| Griffith, Mr. a Mrs. David T. | | | |
| Gliffith Elizabeth | | | |
| Griffith, Mrs. Ellen | | | |
| Griffith, John | | | |
| George, Mrs. Richard T. | | | |
| Hughes, Mrs. Jane | | | |
| Mary Ann | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. Edward R. | | | |
| Hattie | | | |
| Annie May | | | |



| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Hughes, Mr. a Mrs. John R | $ | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. John Richard | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. David T. | | | |
| Margaret Ann | | | |
| Robert W | | | |
| David J. | | | |
| John Einion | | | |
| Hughes, William J. | | | |
| Humphrey, Ellis | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David M. | | | |
| Jones, Mrs. Mary Jane | | | |
| Peter Everett | | | |
| Anna Laura | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Morris B. | | | |
| Morgan Palmer | | | |
| Laura Edwena | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David B. | | | |
| Mary Ceridwen | | | |
| Laura Bebb. | | | |
| Ann | | | |
| Jones, John Jervis | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John Brough | | | |
| Ellinor Laura | | | |
| Elizabeth Mildred | | | |
| Jones, Mrs. Sarah S. | | | |
| Richard W. | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David T. | | | |
| Oddie Ann | | | |
| Jones, Mrs. Jemimah | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. William E. | | | |
| Henry R. | | | |

| | Tal mewn Arlan. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Jones, Mr. a Mrs. Lewis M. | | | |
| Elizabeth Lenora Alban | | | |
| Jones, Mrs. Elizabeth T. | | | |
| Jones, Mrs. Margaret (Col.) | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Edward W. | | | |
| Maggie | | | |
| Jones, Mr a Mrs Thomas A. | | | |
| Thomas Jr. | | | |
| Sarah | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John W. | | | |
| Edith | | | |
| Eva | | | |
| Jones, Mrs Margaret J. | | | |
| Jones, Mr. a Mrs William H. | | | |
| Benjamin F. | | | |
| Alice | | | |
| William Chalmers | | | |
| Jones, Mr a Mrs Edward E. | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Moses P. | | | |
| Mary Alice | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John E. | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Thomas W. | | | |
| Howell | | | |
| Morris H. | | | |
| Hannah | | | |
| Jones, Mr. a Mrs Lewis W. | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David O. | | | |
| Jones, Robert S. | | | |
| Jones, Evan S. | | | |



| | Tal mewn Arlan. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Jones, Mr. a Mrs. John G. | | | |
| Ellen M. | | | |
| Jennie | | | |
| Gabriel William | | | |
| Uriel John | | | |
| Edith Cathrine | | | |
| Thomas Llywelyn | | | |
| Idris Idwal | | | |
| Blodwen Laura | | | |
| Menai Ann | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Thomas Charles | | | |
| Jones, Stephen | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John Elias | | | |
| L. Saunders | | | |
| John Everett | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John E. (crydd) | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David E. | | | |
| Evan T. | | | |
| John C. | | | |
| Hugh T. | | | |
| Jervis, Richard | | | |
| Mary Ellen | | | |
| Jenkins, Mr. and Mrs. John L. | | | |
| Jennie Davies | | | |
| Ella Margretta | | | |
| Lloyd, Mr. and Mrs. John B. | | | |
| James Russel | | | |
| Lloyd, Mr. a Mrs. Evan E. | | | |
| John Calvin | | | |
| Morgan, Parch John P. | | | |
| James Price | | | |
| Ann | | | |
| Elizabeth | | | |
| Margaret Lee | | | |

| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teulualdd. |
|---|---|---|---|
| Morgan, Mrs. Elizabeth J | | | |
| Morgan, Mr. a Mrs. William C | | | |
| Mattie E | | | |
| William T | | | |
| Esther Ann | | | |
| Agnes M | | | |
| Lawrence Ervil | | | |
| Leonard Richard | | | |
| Blodwen | | | |
| Morgan, Joseph T | | | |
| Morris, Mr. a Mrs. Thomas J | | | |
| Morris, Mrs Margaret | | | |
| Maggie | | | |
| Fred O | | | |
| Estella Margretta | | | |
| Luella Anetta | | | |
| Morris, Mr. a Mrs. Eben | | | |
| Owen Elliot | | | |
| Thomas Gordon | | | |
| David Gleason | | | |
| Morris, Mr. a Mrs. David C | | | |
| Meredith, Mr. a Mrs. Evan | | | |
| Meredith, Mr. a Mrs. William | | | |
| Mary Jervis | | | |
| Ann Louise | | | |
| Parry, Mr. a Mrs. Edward | | | |
| Price, Mr. a Mrs. John G | | | |
| Jenkin J | | | |
| Price, Isaac | | | |
| Pugh, Mrs. Martha | | | |
| Yn enw ei diweddar fab David E. Pugh | | | |



| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teulualdd. |
|---|---|---|---|
| Pugh, Mrs. Owen | $ | | |
| Hugh E | | | |
| Elizabeth | | | |
| Mary Ellen | | | |
| Laura | | | |
| David G | | | |
| Owen, Mrs. Rachel | | | |
| John Beynon | | | |
| Owen, Mr. a Mrs. Owen B | | | |
| Rachel Irene | | | |
| Owens, Mr. a Mrs. David | | | |
| Owens, Mrs. Hannah | | | |
| Owens, Dr. Owen W | | | |
| Rees, Mr. a Mrs. John H | | | |
| Rees, Mr. a Mrs. David W | | | |
| Sarah Elizabeth | | | |
| Rees, Mrs Jane | | | |
| Rees, Thomas J | | | |
| William J | | | |
| Richards, Mr. a Mrs. John | | | |
| Mary Ellen | | | |
| John Mills | | | |
| Richards, Mr a Mrs. Hugh O | | | |
| Richards, Jennie M | | | |
| Prof. John H | | | |
| Heber | | | |
| Roberts, Rev. E. a Mrs | | | |
| John Rhys | | | |
| Blodwen | | | |
| Griffith Ellis | | | |
| Jane Olwen | | | |
| Edward Howell | | | |

| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Roberts, Mr. a Mrs. Hugh | | | |
| Owen | | | |
| Thomas Pierce | | | |
| Stanley | | | |
| Annie Mable | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. John T | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Robert R | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Hugh R | | | |
| Thomas, Dr. Thomas R | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Joseph E | | | |
| Eben R | | | |
| Joseph R | | | |
| Mary Ellen | | | |
| Maggie Ann | | | |
| J. Leonard | | | |
| Jervis O | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Morgan N | | | |
| Tudor, Richard B | | | |
| Sedora | | | |
| Viola | | | |
| Whittington, Mrs. Mary | | | |
| Williams, Mrs. Ann | | | |
| Williams, Mr. a Mrs. David W | | | |
| Mary Frances | | | |
| Morgan Elmer | | | |
| William Olwin | | | |
| Williams, Mrs. Elizabeth | | | |
| Nora | | | |
| Williams, Mr. a Mrs. William R | | | |
| G. Edgar | | | |
| John Sherman | | | |
| Edith Ellinor | | | |



| | Tal mewn Arian. | Mewn Gwaith. | Cyfanswm Teuluaidd. |
|---|---|---|---|
| Williams, Mr. a Mrs. Wm. T | | | |
| Evan T | | | |
| Annie | | | |
| Mary | | | |
| Robert | | | |
| Wilson, Griffith | | | |
| Y Gymdeithas Ymdrechol | | | |
| K. P. Lodge, Venedocia No. 177 | 28 75 | | 28 75 |
| RHODDION GAN GWMNIOEDD. | | | |
